

2021 (LIC21-08)

**DEDDF Y CORONAFEIRWS
2020**

**Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion
Newid Amserau Sesiynau Ysgolion
(Cymru) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 38(1)(b) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(1), a pharagraff 7 o Atodlen 17 iddi, yn dyroddi'r hysbysiad a ganlyn.

Cyfnod penodedig

1. Yn yr hysbysiad hwn, ystyr “cyfnod penodedig” yw'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â 1 Chwefror 2021.

Datgymhwyso gofynion newid amserau sesiynau ysgolion

2. Mae rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009(2) (“Rheoliadau 2009”) wedi eu datgymhwyso am y cyfnod penodedig.

Y rhesymau dros ddyroddi'r hysbysiad

3.—(1) Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod dyroddi'r hysbysiad hwn yn gam gweithredu priodol a chymesur o dan yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws am y rhesymau a ganlyn.

(2) Er 5 Ionawr 2021, dim ond i blant hyglwyf a phlant gweithwyr hanfodol y mae mangre ysgolion wedi parhau i fod ar agor er mwyn lleihau lledaeniad y coronafeirws Mae'n fuddiol i rai ysgolion amrywio eu hamseroedd dechrau, gorffen ac egwyl i helpu i gynnal


(1) 2020 p. 7. Diwygiwyd paragraff 7 o Atodlen 17 gan O.S. 2020/640 (Cy. 147) er mwyn cynnwys rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 (O.S. 2009/572 (Cy. 54)) yn y rhestr ym mharagraff 7(5). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r hysbysiad hwn.

(2) O.S. 2009/572 (Cy. 54).

pellter cymdeithasol ymhlith dysgwyr a rhieni ger gathau'r ysgol.

(3) Mae amserau sesiynau ysgolion ar gyfer ysgolion a gynhelir yn cael eu penderfynu fel arfer gan y corff llywodraethu a chaniateir iddynt gael eu penderfynu o dan rai amgylchiadau gan awdurdod lleol o dan adran 32C o Ddeddf Addysg 2002(1). Mae rheoliad 3 o Reoliadau 2009 yn nodi gweithdrefn ar gyfer newid amserau sesiynau ysgolion gan awdurdod lleol ac mae rheoliad 4 yn nodi gweithdrefn ar gyfer newid amserau sesiynau ysgol gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir.

(4) O ganlyniad i'r angen parhaus i gymryd mesurau rheoli clefyd, gan gynnwys cyfyngiadau posibl ar nifer y disgyblion a gaiff gyrraedd a gadael yr ysgol ar yr un pryd, gall fod angen i amserau sesiynau ysgolion barhau'n hyblyg wrth i dymor y gwanwyn fynd rhagddo. Ni fydd yn bosibl i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol gydymffurfio â gofynion rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau 2009 yn yr amser sydd ar gael cyn 1 Chwefror 2021 a gall addasiadau pellach i amserau sesiynau ysgolion fod yn ddymunol yn ddiweddarach yng ngoleuni'r profiad o weithredu ysgolion o dan yr amgylchiadau presennol.



Kirsty Williams
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
27/01/2021

(1) 2002 p. 32. Mewnosodwyd adran 32C gan adran 42 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (dccc 5).